



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



GWASANAETH MEWNBLANIADAU
CLYWEDOL DE CYMRU
SOUTH WALES AUDITORY
IMPLANT SERVICE

Dyfeisiau Clyw Dargludiad Esgyrn a Mewnblaniadau'r Glust Ganol



Holiadur Bodlonrwydd
Gwasanaeth Mewnblaniadau
Clywedol De Cymru

Manylion cyswllt

Rhif Ffôn: 029 218 43179

E-bost: Implantable.devices.CAV@wales.nhs.uk

Cyfeiriad: Gwasanaeth Mewnblaniadau Clywedol De Cymru, Clinig 7, Adran Cleifion Allanol, Ysbyty Athrofaol Cymru, Ffordd Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW

Amdanom ni

Mae Gwasanaeth Mewnblaniadau Clywedol De Cymru yn ganolfan mewnblaniadau arbenigol sefydledig sy'n cynnig ystod o fewnblaniadau clyw gan gynnwys mewnblaniadau cochlear a mewnblaniadau dargludiad esgyrn. Mae cleifion sy'n oedolion yn cael eu gweld yn y brif adran cleifion allanol a phlant yn cael eu gweld yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru.

Mae'r rhaglen mewnblaniadau yn cynnwys Meddyg Ymgynghorol Awdioleg, Llawfeddygon Clust, Trwyn a Gwddf, Gwyddonwyr Clinigol, Awdiolegwyr Arbenigol, Adsefydlwyr, Athrawon Cymwysedig unigolion byddar a Therapyddion Iaith a Lleferydd Arbenigol.

Beth yw dargludiad esgyrn?

Rydym yn clywed trwy ddau lwybr: dargludiad aer a dargludiad esgyrn ac mae'r ddau yn gweithio gyda'i gilydd i'n helpu i glywed.


Gall rhai cyflyrau meddygol yn y glust allanol a'r glust ganol dorri ar draws y sain a glywn trwy ddargludiad aer, sy'n atal y sain rhag mynd i mewn i'r glust fewnol. Gall dargludiad esgyrn osgoi'r problemau yn y glust allanol a'r glust ganol a chyflenwi'r sain trwy ddirgryniadau ar draws y benglog i'r glust fewnol, fel y gallwn glywed.

Sut mae mewnbaniadau dargludiad esgyrn yn gweithio?

Mae systemau dargludiad esgyrn yn cynnwys prosesydd allanol sy'n casglu'r synau rydyn ni am eu clywed ac yn newid y synau hyn yn ddirgryniadau. Mae'r prosesydd yn cysylltu ag ategwaith neu system fagned, ac mae'r dirgryniadau a grëir gan y proseswyr hyn yn cael eu trosglwyddo ar draws y benglog i'r glust fewnol, fel y gallwn glywed.

Mae dau fath o system mewnbaniad clyw dargludiad esgyrn: Systemau **Cyswllt Drwy'r Croen** a **Systemau Magnetig Trawsgroenol**.

1. System Cysylltu Cymorth Clyw wedi'i Angori wrth Asgwrn Trwy'r Croen (BAHA)



©Cochlear Limited 2026. Delwedd trwy garedigrwydd Cochlear Limited

Mae System Cysylltu BAHA yn defnyddio ategwaith bach sy'n darparu cysylltiad rhwng y mewnblaniad a'r prosesydd sain. Mae'n hawdd ei defnyddio ac nid oes angen llawer o ofal arni bob dydd; y cyfan y bydd rhaid i chi ei wneud yw cydio'r Prosesydd Sain BAHA wrth yr ategwaith. Mae'r prosesydd allanol yn canfod synau ac yn eu newid yn ddirgryniadau. Mae'r prosesydd yn anfon dirgryniadau trwy'r ategwaith i'r mewnblaniad, yna trwy'r benglog i'r glust fewnol gan ein galluogi i glywed.

Mae dau wneuthurwr sy'n gwneud y system gysylltu: Oticon BAHA a Cochlear BAHA. Mae'r ddwy system yn gweithio yn yr un ffordd.

2. System Fagnetig Cymorth Clyw Dargludiad Esgyrn Trawsgroenol



Delwedd trwy garedigrwydd MED- EL

Mae'r system Mewnblaniad Magnetig yn cynnwys mewnblaniad mewnol sydd â magned a thrawsddygiadur. Mae gan y prosesydd allanol fagned sy'n denu at y magned mewnol. Mae'r prosesydd allanol yn canfod synau ac yn eu newid yn ddirgryniadau. Mae'r prosesydd yn anfon signalau drwy'r croen i'r mewnblaniad ac mae'r prosesydd mewnol yn creu'r dirgryniadau sy'n teithio ar draws y benglog i'r glust fewnol gan ein galluogi i glywed.

Mae 3 math o system mewnbaniad magnetig dargludiad esgyrn: Osia, Sentio a Bonebridge.

Mae'r 3 system oll yn gweithio yn yr un ffordd.



System mewnbaniad
Cochlear Osia

©Cochlear Limited 2026. Delwedd trwy garedigrwydd Cochlear Limited



System mewnbaniad
Oticon Sentio

*Delwedd trwy garedigrwydd
Oticon Medical*



System mewnbaniad
Bonebridge MEDEL

*Delwedd trwy
garedigrwydd MED- EL*

Mewnblaniadau yn y glust ganol: SOUNDBRIDGE


Os canfyddir eich bod yn addas ar gyfer naill ai system gysylltu trwy'r croen neu system fagnetig drawsgroenol, bydd gennych ddewis i ryw raddau o ran pa system mewnblaniad y byddwch chi'n ei chael, ond bydd y tîm amlddisgyblaethol yn rhoi arweiniad i chi ynghylch pa un fyddai'n gweddu orau i chi.

System mewnblaniad clust ganol yw'r SOUNDBRIDGE ar gyfer pobl nad ydynt wedi cael unrhyw fudd o glywed gyda chymhorthion clyw dargludiad aer a/neu ddargludiad esgyrn, neu na allant eu defnyddio am resymau meddygol. Mae hyn yn aml yn wir yn achos colled clyw parhaol ar ôl llawdriniaeth ar y glust ganol neu pan nad oes modd gwisgo cymhorthion clyw oherwydd llid cronig yn nhib y glust.

Mae'r SOUNDBRIDGE wedi'i greu ar gyfer pobl â cholled clyw synwyrnerfol, dargludol neu gymysg.

Dyfais lled-fewnblanadwy ysgogiad uniongyrchol ar gyfer y glust ganol yw'r SOUNDBRIDGE. Ystyr 'ysgogiad uniongyrchol' yw bod y mewnblaniad yn cysylltu'n uniongyrchol ag esgyrn yn y glust ganol neu'r ffenestr gron. Mae'r SOUNDBRIDGE yn osgoi tiwb y glust a thympan y glust trwy ddirgrynu'r esgyrn bach yn y glust ganol yn uniongyrchol. Nid oes angen mowld clust gyda'r ddyfais hon.

Mewnblaniadau yn y glust ganol: SOUNDBRIDGE



Delweddau trwy garedigrwydd MED-EL

Mae dwy ran i'r mewnblaniad mewnol, sef y prothesis esgyrnlyd dirgrynol (VORP) sy'n eistedd y tu ôl i'r glust o dan y croen, a'r trawsddygiadur màs symudol (FMT) sydd ynghlwm wrth esgyrn y glust ganol.

Mae'r mewnblaniad yn troi'r tonnau sain a godir gan y prosesydd SAMBA yn ddirgryniadau mecanyddol sy'n cael eu hanfon i'r cochlea ac yna i'r ymennydd, yn union fel yn y broses glywed naturiol.

Mewnblaniadau yn y glust ganol: SOUNDBRIDGE

Mae prosesydd sain SAMBA 2 yn codi tonnau sain o'r amgylchedd ac yn eu trosglwyddo ar draws y croen i'r VORP mewnol. Yna caiff y signal hwn ei ddanfôn i'r FMT, sy'n ysgogi esgyrn y glust ganol neu'r ffenestr gron yn fecanyddol, gan ddynwared y broses glywed naturiol.



Delwedd trwy garedigrwydd MED- EL

Dyfeisiau dargludiad esgyrn na ellir eu mewnbrannu

Gall rhai cleifion elwa o gymhorthion clyw dargludiad esgyrn, ond efallai na fyddan nhw'n awyddus i gael llawdriniaeth. Mae'n bosibl clywed trwy ddargludiad esgyrn gan ddefnyddio band pen. Mae'r prosesydd sain ynghlwm wrth fand pen neu fand meddal i'w wisgo. Mae'r ddyfais yn anfon dirgryniadau ar draws y croen i'r asgwrn lle maen nhw'n cael eu canfod gan y cochlear a'u canfod fel sain. Mae hwn yn opsiwn hirdymor amgen da i gleifion nad ydyn nhw eisiau cael llawdriniaeth, neu na allan nhw gael llawdriniaeth.



Delwedd trwy garedigrwydd Sonovo Group Ltd: sonovo.co.uk

Atgyfeiriad

Rydych chi wedi cael eich atgyfeirio i gael eich ystyried ar gyfer dyfais mewnblanadwy dargludiad esgyrn. Gall llwybr y claf gymryd hyd at 26 wythnos o'r atgyfeiriad. Mae'r cyfnod hwn yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a fydddech chi'n cael budd o fewnblaniad clyw dargludiad esgyrn.

Asesiad Awdiolegol cychwynnol a thrafod canlyniadau
(6 wythnos ar ôl cael eich atgyfeirio)



Treial cartref 2-4 wythnos gyda dyfais
dargludiad esgyrn ar fand pen




Adolygiad yn dilyn treial cartref.
Os yw'n addas, ceir opsiwn i gwrdd â defnyddiwr



Cyfarfod amlddisgyblaethol gyda meddygon
ymgyngorol a meddyg awdiofestibwlar, a theulu/
ffrindiau er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch
llawdriniaeth. Os byddwch yn addas, cewch eich rhestru
ar gyfer llawdriniaeth. Os nad ydych yn addas, byddwch
yn cael eich atgyfeirio'n ôl i Awdioleg

Atgyfeiriad



Asesiad Awdiolegol

Cyn cael eich atgyfeirio i'r rhaglen mewnbaniadau, byddwch wedi cael diagnosis o golled clyw gymysg/ ddargludol a byddwch wedi cael trafferth gwisgo cymhorthion clyw traddodiadol neu heb gael fawr o fudd ohonynt. Bydd clefion â cholled clyw synwyrnerfol un ochr hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer dyfeisiau clyw dargludiad esgyrn.

Bydd eich Awdiolegydd yn edrych ar eich cofnodion awdiolegol, ac efallai y byddwch yn cael cymhorthion clyw newydd addas y bydd angen i chi eu gwisgo am gyfnod penodol cyn yr asesiad. Pan fydd eich Awdiolegydd yn hapus eich bod wedi cael y cymorth gorau posibl ond nad ydych chi'n cael fawr o fudd ohonynt, os o gwbl, neu na allwch eu goddef, yna bydd yn bwrw ymlaen â'r asesiad dargludiad esgyrn.

Yn ystod yr asesiad, bydd ein Hawdiolegwyr yn cynnal profion clyw gyda a heb eich cymhorthion clyw ac yn cynnal prawf lleferydd dargludiad esgyrn. Bydd y profion hyn yn pennu a yw eich lefelau dargludiad esgyrn o fewn y meini prawf addas ar gyfer dyfais clyw dargludiad esgyrn y gellir ei mewnbannu.

Fel rhan o'r asesiad, bydd dyfais clyw dargludiad esgyrn yn cael ei rhaglennu a'i gosod ar fand pen i chi ei threialu yn y clinig. Yna byddwch chi'n cael y cyfle i fynd â'r ddyfais adref am 2-4 wythnos o brawf. Gofynnir i chi gadw

Audiological Assessment

cofnod o'ch profiadau i'ch helpu chi i fyfyrrio ar y budd a gawsoch o'r ddyfais.

Yn dilyn y treial cartref bydd eich Awdiolegydd yn eich adolygu ac yn trafod eich profiad gyda'r ddyfais. Os ydych chi wedi cael profiad cadarnhaol ac yn dymuno bwrw ymlaen, cewch apwyntiad i ddod yn ôl i'r clinig i gyfarfod â thîm aml-ddisgyblaethol, gan gynnwys Llawfeddyg Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) a meddyg Awdiolegol.

Os bydd dyfais clyw dargludiad esgyrn yn fuddiol i chi ond nad ydych am fwrw ymlaen â'r llawdriniaeth, efallai y bydd y tîm aml-ddisgyblaethol yn trafod y dewis i chi wisgo'r ddyfais dargludiad esgyrn ar fand pen yn y tymor hir i'ch helpu i glywed.

Gwerthusiad Meddygol

Bydd ein Llawfeddygon Ymgynghorol ENT a'n Meddyg Awdiolegol yn ystyried eich hanes meddygol ac yn trafod yr holl opsiynau addas gyda chi. Byddant yn egluro gweithdrefn y llawdriniaeth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hi. Efallai y bydd y llawfeddyg yn gofyn am belydrau-X a sganiau CT ac yn eu gwerthuso. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth gan weithwyr meddygol proffesiynol eraill.

Gwerthusiad Meddygol

Pan fydd y llawfeddyg yn hapus i symud ymlaen, byddwch chi'n cael eich rhoi ar y rhestr ar gyfer llawdriniaeth. Byddwch yn cael eich anfon am asesiad cyn-lawfeddygol i asesu eich iechyd cyffredinol a'ch addasrwydd ar gyfer llawdriniaeth.

Mae'r amser aros am lawdriniaeth yn amrywio felly ni allwn ni roi gwybod i chi pa mor hir y bydd yn rhaid i chi aros.

Fel y soniwyd yn gynharach, mae gwahanol fathau o fewnblaniadau dargludiad esgyrn, a bydd eich Awdiolegydd a'ch Llawfeddyg yn trafod yr opsiynau hyn gyda chi i benderfynu pa opsiwn sydd fwyaf addas i chi.

Beth sy'n digwydd yn ystod y llawdriniaeth?

Ar ddiwrnod y llawdriniaeth, bydd y tîm yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ac yn gofyn i chi lofnodi ffurflen gydsynio.

Yna, byddwch yn cael eich cludo i'r theatr ar gyfer y llawdriniaeth. Mae'r llawdriniaeth yn para tuag 1 awr. Mae'n debyg y cewch eich rhyddhau ar yr un diwrnod. Gallwch ddewis cael anaesthesia cyffredinol neu leol, a

What happens during the operation?

bydd eich Llawfeddyg yn eich helpu i benderfynu pa un sy'n fwy priodol. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar eich hanes meddygol a'r math o fewnblaniad rydych chi'n ei gael.

Yn ystod y llawdriniaeth, bydd ardal fach o'ch gwallt yn cael ei heillio i helpu'r llawfeddyg i fewnosod y mewnblaniad. Bydd y clwyf yn cael ei gau gan ddefnyddio pwythau a fydd fel arfer yn hydoddi o fewn 2 wythnos.

Ar ôl y llawdriniaeth bydd eich pen yn debygol o gael ei lapio mewn rhwymyn i amddiffyn safle'r toriad, a byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau ar sut i ofalu am safle'r mewnblaniad ynghyd â meddyginiaeth a chyfarwyddiadau i gyfyngu o bosibl ar weithgareddau.

Unwaith y byddwch chi'n tynnu'r rhwymyn, efallai y bydd gennych chi rywffaint o chwyddo o amgylch safle'r toriad. Efallai y byddwch chi'n cael rhywfaint o anghysur am hyd at 48 awr ar ôl y llawdriniaeth. Fe'ch cynghorir i gadw safle'r mewnblaniad yn sych am o leiaf wythnos ar ôl y llawdriniaeth i helpu gyda'r broses wella.

Rhoddir apwyntiad i chi i ddod i'r ysbyty tua phythefnos ar ôl y llawdriniaeth i wirio'r clwyf. Os yw eich Llawfeddyg yn hapus, bydd yn cysylltu â'ch Awdiolegydd fel y gellir trefnu dyddiad i osod eich prosesydd clyw. Fel arfer, mae hyn 6 wythnos ar ôl y llawdriniaeth.

Eich apwyntiad ffitio

Bydd yr awdiolegydd yn gwirio'ch craith ac yn edrych yn eich clust sydd wedi cael llawdriniaeth. Bydd eich prosesydd clyw newydd yn cael ei gysylltu â'r mewnblianiad a'i raglennu gan ddefnyddio meddalwedd gyfrifiadurol. Bydd profion clyw yn cael eu cynnal i sicrhau bod y prosesydd wedi'i osod yn gywir i wella'ch clyw.

Adolygiad

Byddwch yn cael apwyntiad i fynychu'r clinig Awdioleg am adolygiad 3 mis ar ôl i'ch dyfais gael ei ffitio. Bydd eich Awdiolegydd yn gofyn i chi lenwi rhai holiaduron a bydd yn cynnal rhai profion clyw. Gall eich Awdiolegydd addasu eich prosesydd os bydd angen. Os ydych chi a'ch Awdiolegydd yn hapus â'ch cynnydd, byddwch yn cael eich adolygu flwyddyn ar ôl ffitio.

Ar ôl hynny, byddwch yn cael eich adolygu bob 3 blynedd yn y clinig. Os byddwch chi'n datblygu problem gyda'r prosesydd neu safle eich mewnblianiad, gallwch chi gysylltu â'r gwasanaeth dros y ffôn neu drwy'r e-bost. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar dudalen 2.

Atgyweiriadau parhaus a batris

Ar gyfer atgyweiriadau cyffredinol i ddyfeisiau a batris, cysylltwch â'r adran Awdioleg.

Os ydych chi'n teimlo bod eich clyw wedi dirywio, gallwch ofyn am apwyntiad drwy gysylltu â'r adran Awdioleg. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar dudalen 2.

Os byddwch chi'n datblygu pryderon

Os byddwch chi'n datblygu problem gyda safle eich ategwaith/mewnblaniad, gan gynnwys poen, chwydd neu redlif, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Adran Awdioleg neu'r Adran Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) i gael cyngor a chymorth:

Adran Awdioleg: 02921 843179

E-bost: Implantable.Devices.cav@wales.nhs.uk

Adran Clust, Trwyn a Gwddf: 02920 743471

Os yw safle'r mewnblaniad yn gwaedu'n barhaus, fe'ch cynghorir i fynd yn syth i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i gael triniaeth.

Ar ôl i chi gael eich rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, cysylltwch â'r adran Awdioleg neu'r adran Clust, Trwyn a Gwddf ar y rhifau uchod fel y gallwn drefnu'r ôl-ofal priodol.

